

Taflen Wybodaeth Dosbarth Derbyn Ysgol Mynydd Bychan 2021-22



Croeso i deulu Ysgol Mynydd Bychan - "O'r Fesen Derwen a Dyf"

"Mae gennym ni weledigaeth glir bod gan bob plentyn yr hawl cynhenid i ddysgu gyda'r pwyslais ar ddarparu awyrgylch ble gall ein disgyblion ddatblygu'n addysgiadol, yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn gorfforol.

Credwn mai rôl pob aelod o staff yw sicrhau fod pob plentyn yn teimlo'n abl a thalentog a'u bod yn cael y cyfle i ddysgu mewn awyrgylch diogel a chartrefol ei naws".

Aelodau Staff

Pennaeth:

Miss Siân Evans

Dirprwy Bennaeth:

Mr Iolo Williams


Arweinydd Cam Cynnydd 1 a 2:

Mrs Laura Dobson

Athrawon y Feithrin:

Miss Lois Williams

Aelodau Staff y Derbyn



Athrawes
Miss Lois Williams



Cynorthwyr Dysgu Dosbarth

Miss Siwan Gordon



Miss Natalie Hill - Gwener





Amseroedd y Derbyn



Dechrau

8:50

Gorffen

3:10

Ymarfer Corff - Dydd Iau

Dydd Iau - dewch yn eich dillad ymarfer corff

Dosbarth Derbyn



Cliciwch [yma](#) am daith rhithiol o'r Derbyn ac i gwrdd â Miss Williams

Cliciwch [yma](#) i wrando ar blant Blwyddyn 6 yn cyflwyno'r ysgol.



PARATOI EICH PLENTYN AR
GYFER DECHRAU YSGOL

Gwisg Ysgol

Cofiwch labelu pob darn o ddilledyn!!

Mae angen gwisgo esgidiau du addas i'r ysgol.

Mae'r wisg ysgol ar gael i'w phrynu o siôp [YC Sports](#).

Mae nifer fawr o Siopau yn gwerthu gwisg ysgol erbyn hyn hefyd.

Edrychwch am: '*Jade school polo shirt/Jumper*'.

Awgrymw'n bod eich plentyn yn gwisgo trowsus cyfforddus ac esgidiau 'felcro' yn ystod y tymor cyntaf er mwyn ei helpu i wisgo'n annibynnol.

Ni fydd angen gwisg ymarfer corff ar y plant o fewn yr hanner tymor cyntaf - dim ond dillad cyfforddus ac esgidiau rhedeg. Cewch ragor o wybodaeth am lysoedd yn nes at yr amser.

Mae croeso i chi ddanfôn bag gyda dillad sbâr ond gofynnwn yn garedig i chi beidio a danfon unrhyw deganau.





SUT FEDRWCH CHI HELPU EICH PLENTYN?

- Anogwch eich plentyn i ddefnyddio'r tŷ bach yn annibynnol.
- Dysgwch eich plentyn i olchi ei dd/dwylo ac atgyfnerthwch hyn yn gyson fel ei b\od yn cofio i wneud hynny bob tro.
- Dysgwch eich plentyn i wisgo a dadwisgo ei g/chôt yn annibynnol.
- Anogwch eich plentyn i dacluso ac i ofalu am deganau.
- Anogwch eich plentyn i chwythu/sychu trwyn yn annibynnol.

Yn ogystal, bydden ni'n gwerthfawrogi'n fawr pe baech chi'n medru:

- dal pensil a dechrau ffurfio enw, geiriau, rhifau
- adnabod llythrennau a rhifau i 10.
- trafod â'ch plentyn yr hwyl a'r sbri a geir yn yr ysgol trwy edrych ar luniau SeeSaw - mi fydd gwybodaeth mewngofnodi yn dilyn ym Medi.
- helpu eich plentyn i adnabod ei enw
- darllen llyfrau a gwyllo rhaglenni Cymraeg gyda'ch plentyn mor aml â phosibl (Cyw/Apiau Cymraeg)
- Rhoi cyfle i'ch plentyn ddefnyddio offer creadigol gartref e.e. creonau, pensiliau, papur, glud, siswrn a phaent

APIAU CYMRAEG DEFNYDDIOL USEFUL WELSH APPS

 Llyfrau Bach Magi Ann	 Cyfri gyda Cyw	 Dudingol	 Cyw Tiwb
 Tric a Chlic	 Sillafu Iaith Gyntaf	 Canu Selog 2	 Byd Cyw
 Ar y Fflem	 Betsan a Roco yn y Pentref	 Bys a Bawd	 Campau Cosmig
 Dewin a Doti	 Aur am Air	 Cyw a'r Wyddor	 Llyfrau Hwyl Magi Ann set 2



Gwrandewch ar
ganeuon ar
wefan Cyw.

Gwrandewch ar
storiâu ar
wefan
BookTrust
Cymru.



[Caru Canu gyda Cyw](#)

[Cyw S4C](#)



Byrbryd iachus a Llaeth



Yn wahanol i'r Feithrin, mi fydd angen i chi ddarparu ffrwyth neu lysieuyn yn ddyddiol. Gofynnwn yn garedig i chi beidio â danfon ffrwythau wedi'u sychu e.e. "Yoyo Bear" neu "Fruit Winders". Awgrymwn eich bod yn torri ffrwythau yn ddarnau, yn enwedig grawnwin, o ran diogewlch. Mae'r plant yn derbyn llaeth neu ddŵr yn ddyddiol.

Nid ydym yn derbyn cnau amser byrbryd nac amser cinio oherwydd alergeddau difrifol o fewn yr ysgol.

Cinio Ysgol

Am y bythefnos gyntaf gofynnwn yn garedig i chi ddarparu pecyn bwyd iachus ar gyfer eich plentyn. Gweler syniadau pecyn bwyd [yma](#). Mi fydd gwybodaeth ynglŷn â archebu cinio ysgol yn cael ei ddarparu gan y swyddfa yn ystod yr wythnos gyntaf. Os ydych yn hawlio cinio am ddim, cysylltwch â Mrs Elaine Robinson (erobinson@cardiff.gov.uk) yn ystod yr wythnos gyntaf.

PWYSIG - Oes oes gan eich plentyn unrhyw alergedd, mae'n RHAID rhoi gwybod ar y diwrnod cyntaf!

Llau Pen



A wnewch chi edrych yng ngwallt eich plentyn yn rheolaidd a'i drin os oes angen, dylai unrhyw wallt hir gael ei glymu yn ôl.



Mae diwrnod cyntaf eich plentyn yn yr ysgol yn un i'w drysori ac fe wnawn bob ymdrech i wneud yn siŵr ei fod yn un hapus a chofiadwy i bawb.

Mi fydd plant y Derbyn yn dechrau fesul hanner dosbarth, a hynny er mwyn rhoi cyfle iddynt ymgartrefu ac ymgyfarwyddo â wynebaw newydd yn ogystal â'u hamgylchedd dysgu newydd. Bydd hefyd yn gyfle gwerthfawr i rieni a staff ddod i adnabod ei gilydd.

Gofynnwn yn garedig i chi hebrwng eich plentyn i brif fynedfa'r ysgol sy'n arwain at y Derbyn ar Heol Eglwys Newydd lle fydd Miss Williams yno, i'ch cyfarch a'ch helpu.

Bydd Miss Williams, ynghyd â chynorthwywraig y dosbarth, ar gael i arwain eich plentyn i'r ystafell ddosbarth. Yno, bydd lluo weithgareddau deniadol wedi eu paratoi, a bydd rhwydd-hynt i'r plant chwarae ac ymlwybro o amgylch y dosbarth yn ystod eu sesiwn cyntaf.

Gofynnwn eich bod yn ffarwelio'n hapus â'ch plentyn. Mae'n bur debygol y bydd rhai plant yn ddagreuol wrth i rieni eu gadael am y tro cyntaf, ond digon buan y dônt i'r arfer â ffarwelio. Os teimlwn fod eich plentyn yn parhau i ofidio ar ôl cyfnod o amser, mi gysylltw'n ni â chi.

Pan fyddwch yn casglu eich plentyn ar ddiwedd y dydd, gofynnwn eich bod yn aros tu allan i ddrws allanol y Derbyn. Byddwn yn trosglwyddo plant yn ddiogel i'w rhiant / gwarcheidwad bob yn un.

COFIWCH roi gwybod os oes rhywun gwahanol yn casglu eich plentyn, boed hynny drwy alwad ffôn neu ar lafar. Ni chaniatawn i blentyn fynd adref gydag unrhyw un dieithr.

Meddyginiaeth/ Damweiniau

Nid oes gennym yr hawl i roi unrhyw foddion fel Calpol, Nurofen ayyb sydd heb presgripsiwn Doctor. Os yw eich plentyn angen moddion gan Ddoctor tra yn yr ysgol mi fydd angen llewni ffurflen meddyginiaeth sydd ar gael o'r swyddfa.



Os fydd eich plentyn yn disgyn/cael anaf mi fyddwn yn llenwi ffurflen ddamweiniau ac yn rhoi gwybod i chi. Os yw eich plentyn yn cael bwmp i'r pen, byddwn yn eich galw yn syth i rybuddio a thrafod.

Gwybodaeth pellach

- Clwb Brecwast - mi fydd manylion am y Clwb Brecwast yn dod adre drwy law yr wythnos hon.
- Clwb ar ôl ysgol - Mae Clwb yn cael ei gynnal gan gwmni o'r enw 'PlayWorks'.
- Cysylltwch â 02920 864780, neu enquiries@playworks-childcare.co.uk i drafod ymhellach.
- Cymdeithas Rhieni - Mae tudalen 'Facebook' ar gael ar gyfer gwybodaeth am yr ysgol, yn ogystal mae tudalen gwisg ysgol sydd yn cynnig gwisgoedd am ddim, chwiliwch am;

Rhieni YMB/YMB parents

Gwisg ysgol YMB School Uniform